Trysorau Liz Selway Eglwysbach

A FINNA dros fy mhedwar ugain gallwch fentro fod gennyf lawer i'w drysori. Mae gennyf gasgliad helaeth o emwaith arian wedi eu cynllunio gan Rhiannon sydd yn rhoi pleser i mi, ac yn ennyn edmygedd eraill. Ond un o'r pethau dwi wedi ei drysori dros gyfnod hir ydi'r car bach aur

yma. Bûm yn athrawes deithiol am dros ugain mlynedd, ac aeth hwn â mi i ysgolion ledled Sir Conwy a Sir Ddinbych. Gan fy mod yn dod yn wreiddiol o Sir Fôn, a nifer o'm teulu yn dal i fyw yno. mae'r car bach aur yn croesi'r Fenai yn aml iawn. Oes, mae gennyf feddwl y byd o'r car, a chyfeiriaf ato yn aml fel 'Yr Aur'.

Yr oedd cyfnod sefydlu Merched y Wawr hefyd yn oes euraidd y Nosweithiau Llawen trwy Gymru a thu hwnt a'r partion canu 'Y Bois' a'r 'Hogia' yn boblogaidd iawn. Gan fod fy ngŵr, Trefor Selway yn adroddwr ac arweinydd roedd galw mawr am ei wasanaeth yn y nosweithiau hyn mewn neuaddau orlawn, gan gynnwys Pafiliwn Corwen a Phontrhydfendigaid,

Y Majestic Caernarfon a'r Plaza Bangor. Dechreuodd galwadau i Alwen ac Owain, ein plant i gyfrannu at y bwrlwm hwn, ac yn aml iawn Alwen fyddai'r unig ferch ar y llwyfan.

Roedd hwn yn gyfnod cyhoeddi llawer o gylchgronau gan Urdd Gobaith Cymru, a dyma fy ail drysor, copi o *Bore Da,* gyda llun Alwen ac Owain ar y clawr. Yn dilyn ymddangosiad y rhifyn a'r llun hwn daeth llythyr i ni o Lydaw gan ŵr o'r enw Yves Bonvallet yn ein gwahodd i wersylla yn ei gartref yn Rochefort-en-Terre, pentref hynafol a thlws iawn yn Morbihan, rhan o ogledd gorllewin Llydaw. Does ryfedd fod yr arlunwyr Claudia Williams a Gwilym Pritchard wedi symud i fyw i'r ardal honno.

Roedd hwn yn brofiad gwahanol i ni – cael cysgu mewn pabell reit wrth ymyl plasdy enfawr y gŵr dieithr hwn oedd wedi dysgu Cymraeg, ac yn derbyn 'Bore Da' i ymestyn ei eirfa, ac i ddeall ein bod ni yn hoffi gwersylla. Byddai'n dod bob bore a dweud, "Mae'r ystafell ymolchi yn barod rŵan, os gwelwch yn dda," oedd yn swnio'n fwy fel gorchymyn na gwahoddiad! Cawsom ymuno efo'r teulu i fwyta yn y plas ar adegau. Roedd Yves yn siarad Ffrangeg, Saesneg, Llydaweg a Chymraeg, ac roedd ganddo bedwar o blant, Yves, Arthur, Annaig a Roisin. Roedd chwarel lechi carreg werdd yn rhan o'r stâd, ac roedd hefyd yn magu cannoedd o dwrcîod. Ffrind i Bonvallet oedd Per Denez. Roeddem wedi ei gyfarfod ef yn Fougeres y flwyddyn flaenorol pan oedd Trefor, Alwen ac Owain yn rhannu llwyfan efo Dafydd Iwan, Edward ac Alan Stifel.

Tra'n crwydro traeth yn Llydaw daeth Owain ar draws seren fôr a darn o froc môr, a dyma'r trydydd trysor. Yn anffodus bu Owain farw mewn tân yn ei gartref yn 2005, ac mae'r seren fôr hon yn fy atgoffa o amser hapus. Roedd y ddau ohonom

yn hoff iawn o gerdded a bod allan yn yr awyr iach. Ar ôl colli ei wraig dyfynnodd Dr. Emyr Wyn Jones y geiriau hyn, "A feddo gof a fydd gaeth, Cyfaredd cof yw hiraeth". Yn sicr mae gennym ni hiraeth dwys, ond trysoraf y cof sy'n fy ngalluogi i hel atgofion melys.

Dyna oedd gennym yng nghyfarfod cyntaf y tymor yng Nghangen Eglwysbach eleni – noson i hel atgofion trwy ddarluniau, llyfrau lloffion a gwaith llaw, a finne fel llywydd cyntaf y gangen yn cofio'r hanner dwsin gwreiddiol yn dod yn hanner cant erbyn diwedd y flwyddyn. Gallaf ddweud yn ffyddiog gan fenthyg geiriau Sulwen Davies fod yma sbarc a digon o betrol i'n cynnal am sawl blwyddyn arall!